Oriel Wrecsam
rhaglen

André Kertész, *Awst 16, 1979*, Ffotograff Polaroid SX-70. Ystad André Kertész, Higher Pictures. Trwy garedigrwydd Stephen Bulger Gallery

Chwefror - Awst
2010

Oriel Indigo

20 Chwefror – 17 Ebrill
Cynweliad Nos Wener 19 Chwefror 7-9pm

Ysgydwa Fo:

Hanes Sydyn y Polaroid

Nobuyoshi Araki, Rut Blees Luxemburg, Guy Bourdin, Tim Braden, Walker Evans, Andre Kertesz, Jonathan Monk, Lisa Oppenheim, Lucas Samaras

Cafodd y Polaroid effaith sylweddol ar ddiwylliant cyfoes. Mae'r arddangosfa hon yn taflu goleuni ar rai o'r enghreifftiau mwy cyfareddol ac arloesol yn hanes y ffotograff Polaroid, gan archwilio ei arwyddocâd diwylliannol ac amrywiaeth ei gymwysiadau. Heblaw gwaith rhai o'r artistiaid pwysicaf sy'n gweithio gyda'r cyfrwng, bydd y sioe hefyd yn cynnwys lluniau Polaroid o alwedigaethau a gwyddorau amrywiol eraill fel gwaith fforensig, archeoleg, ffasiwn a gwneud ffilmiau, yn ogystal â gwaith amaturiaid a selogion.



Lucas Samaras, Ffoto-trawsffurfiad,10.29.73, ffotograff Polaroid SX-70, Trwy garedigrwydd Pace McGill Gallery a Xippas Gallery

Arddangosfa Deithiol
Pump House Gallery

pumphousegallery

24 Ebrill – 23 Mehefin
Cynweliad: Nos Wener 23 Ebrill 7-9pm

Cyfanfydol Unigryw

Fel rhan o thema Ewropeaidd Gŵyl Gelfyddyd Wrecsam, mae Cyfanfydol Unigryw yn archwilio ein perthynas â'n cymheiriaid Ewropeaidd trwy gyfrwng portread. Gan gynnwys delweddau pen ac ysgwydd trawiadol yr arlunydd Antek Schultz, yn wreiddiol o Wlad Pwyl ond yn byw yn yr Almaen, a baentiwyd gydag amrediad eang o liwiau llachar.

Delwedd trwy garedigrwydd Antek Schultz

3 Gorffennaf – 2 Medi
Cynweliad: Nos Wener 2 Gorffennaf 7-9pm

Arddangosfa Agored Wrecsam 2010

Daw ein harddangosfa agored flynyddol boblogaidd yn ôl, gan ddangos gwaith amrywiaeth o artistiaid ymhob cyfrwng gyda gwobrau ar gyfer pob categori o artistiaid Proffesiynol, Amatur a Myfyriwr a hefyd Gwobr y Bobl sy'n cael ei dyfarnu i'r celfwaith a edmygwyd fwyaf gan ymwelwyr â'r arddangosfa.

Lesley Halliwell, Dewis a Dethol, 746 munud (manylyn), Biro ar bapur - Enillydd Gwobr Broffesiynol Arddangosfa Agored Wrecsam 2009

Oriel Majenta

22 Mawrth - 26 Mehefin

Lansio

Unwaith eto rydym yn falch o groesawu'r arddangosfa deithiol, *Lansio*, dathliad o dri llinyn arddangosfeydd a welwyd mewn amrywiaeth o fannau o gwmpas Wrecsam yn ystod ailwampio'r Llyfrgell a chau ein hail neuadd arddangos. Mae'n cynnwys dwy arddangosfa:

Photomission

Prosiect dan arweiniad artistiaid, a ysbrydolwyd gan brosiect *Snap-Shot-City* ar y we fyd-eang. Arddangosfa yw hon o ffotograffau a dynnwyd ac a ddewiswyd gan bobl ifanc yn y gymuned leol.

Y pethau, arwyddion a symbolau bob dydd sy'n rhoi ystyr ond sy'n mynd yn ddisylw yw ffynhonnell ysbrydoliaeth yn y casgliad hwn o ddelweddau.

Photomission, Ffotograffau a gynhyrchwyd gan Ganolfan Pobl Ifanc Bryn-teg

Shorts

Casgliad o ffilmiau byr a grëwyd gan bobl ifanc mewn amrywiol weithdai gwneud ffilmiau yn Oriel Wrecsam. Seiliwyd y ffilmiau ar storïau byrion a'u cynhyrchu trwy ddefnyddio animeiddiad atal symudiad a ffotograffiaeth datguddiad hir.

Darn paratoadol ar gyfer ffilm a gynhyrchwyd yn ystod gweithdy Ffilmiau Campwaith

Yr Hunan fel Gwrthrych, Jordan

Yr Hunan fel Gwrthrych

Tynnwyd yr hunanbortreadau ffotograffig hyn mewn gweithdy yn Oriel Wrecsam mewn ymateb i'r arddangosfa allan o'r cyffredin / anghyffredin: ffotograffau siapaneaidd cyfoes. Gofynnwyd i gyfranogwyr greu portreadau ohonynt eu hunain yn defnyddio gwisgoedd a chelfi. Mewn rhai achosion, mae'r delweddau'n adlewyrchu agwedd ar wir gymeriad yr unigolyn, ond mewn rhai eraill mae'r cymeriadau'n ddychmygol gyda'r wisg yn gweithredu fel cuddwisg.

Mae'r arddangosfeydd hyn yn cynnwys gwaith a grëwyd gan blant a phobl ifanc Wrecsam.

Photomission, Ffotograffau a gynhyrchwyd gan Ganolfan Pobl Ifanc Bryn-teg

Celfyddydau Cymhwysol

22 Mawrth – 12 Mehefin

Catherine Peet

Mae Catherine yn creu bagiau bwced tecstil sy'n ymgorffori hen fotymau a gwaith edau llyfn.

23 Mawrth – 12 Mehefin

Janine Partington

Wedi'i hysbrydoli gan elfennau naturiol, mae Janine yn defnyddio stensilau cywrain wedi'u torri â llaw i greu gemwaith enamel sy'n cyfuno technegau enamlo traddodiadol gyda chynllun cyfoes ffres.

Yvette Brown

Gwylio adar yw ffynhonnell ysbrydoliaeth ffigurau a gemwaith Yvette o 'adar' piwter wedi'u bwrw â llaw. Wedi'u gosod ar fonau poplys, mae baneri asetad ar ei darnau cerfluniol gyda negeseuon arnynt.

Nicola Cheers

Llongau tanfor ceramig a grëwyd gyda theimlad digrif a gwamal. Caiff pob llong danfor ei llunio'n unigol gyda'r arwyneb gorffenedig yn ceisio ail-greu'r rhwd a chyrydiad sydd i'w gael ar longau'r cefnfor ar ôl bod yn hir yn y môr.

8 Mehefin – 7 Awst

Melanie Tomlinson

Mae Melanie'n gweithio gyda haenau dur tun i gynhyrchu broetshis a ysbrydolwyd gan natur, yn arbennig ieir bach yr haf a gwyfynod a'u portread mewn llên gwerin. Daw ysbrydoliaeth hefyd o batrymau les o Rwmania lle bydd themâu'r trychfilod hyn yn ymddangos yn aml.

Janice Parker

Ffigurynnau ceramig hudol a gemwaith seiliedig ar storïau ffuglennol plant.

Ann Opstrup

Caeau irlas Gwlad yr Haf wledig yw'r gefnlen sy'n ysbrydoli bagiau lledr bywiog ac addurnog Ann. Mae ei chynlluniau'n adlewyrchu ei chariad at liw a theimlad, gan ymgorffori geiriau a straeon yn aml.

Dysgu

Mae Oriel Wrecsam yn cynnal gweithgareddau celfyddydau gweledol o safon ar gyfer grwpiau amrywiol drwy gydol y flwyddyn, yn ystod ac allan o'r tymor. Mae modd addasu gweithdai i weddu i wahanol oedrannau a galluoedd.

Cysylltwch â'r Swyddog Cynorthwyol Celfyddydau Gweledol i drafod unrhyw geisiadau. 01978 292093 oriel.wrecsam@wrexham.gov.uk

Gweithdai'r Gwanwyn

Ysgydwa Fo: Hanes Sydyn y Polaroid

5 – 7pm Nos Llun 1 Mawrth
Cipolygon
Noswaith o weithdai blasu a ysbrydolwyd gan yr arddangosfa ffotograffiaeth hon.

Sylwch: Bydd digwyddiadau'r hwyr ar gyfer oedolion yn cael eu cynnal ar ddydd Llun cyntaf y mis drwy gydol 2010 (heblaw 5 Ebrill a 6 Medi).

Sesiynau Mini Cipolwg ~
Mae amrywiaeth o weithdai ar gael i blant ifanc a myfyrwyr hyd at oed coleg, a ysbrydolwyd gan yr arddangosfa. Codwch Raglen Ddysgu Oriel Wrecsam neu ffoniwch 01978 209093 i gael rhagor o wybodaeth.

Gwyliau'r Pasg

Cerflunio Campus
Dydd Mawrth 6 Ebrill
10 am – 12 hanner dydd
I rai dan 7 oed (rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn i gynorthwyo). **£4** (£3 am bob brawd neu chwaer ychwanegol)

Helyg y Gwanwyn
Dydd Mercher 7 Ebrill
10 am – 3 pm
I bawb 5 oed a hŷn (plant dan 8 i ddod gydag oedolyn i gynorthwyo). **£5** (£4 am bob brawd neu chwaer ychwanegol)

Cipluniau Corff
Dydd Iau 8 Ebrill 10 am – 3 pm
I bawb 8 oed a hŷn, croeso i oedolion! **£5** yr un (£4 consiesiynau)

Codwch Raglen Ddysgu Oriel Wrecsam neu bamffledyn Hwyl Hurt y Pasg i gael rhagor o fanylion.

Cyfanfydol Unigryw

Dydd Llun 3 Mai a 7 Mehefin
5 – 7pm
Ewro Jac
Dwy noswaith o weithdai blasu ar gyfer oedolion a ysbrydolwyd gan yr arddangosfa.

Sylwch: Bydd digwyddiadau'r hwyr ar gyfer oedolion yn cael eu cynnal ar ddydd Llun cyntaf y mis drwy gydol 2010 (heblaw 5 Ebrill a 6 Medi).

Mae amrywiaeth o weithdai ar gael i bobl o bob oed (o'r blynyddoedd cynnar i fyfyrwyr prifysgol) a ysbrydolwyd gan yr arddangosfa. Maent yn archwilio materion cysylltiedig â phortread a thir sy'n gyffredin i wahanol ddiwylliannau. Codwch Raglen Ddysgu Oriel Wrecsam neu ffonio 01978 209093 i gael rhagor o wybodaeth.

Hanner Tymor Mai / Mehefin

Gŵyl Gelfyddydau Wrecsam 2009

Dydd Llun 31 Mai a Dydd Mercher 2 Mehefin
Gwneud Carnifal gyda Gorymdaith mini
Arddangosfa *Cyfanfydol Unigryw* sy'n ysbrydoli Gorymdaith Garnifal eleni ac mae'n rhan o ddigwyddiadau Gŵyl Gelfyddydau Wrecsam.

Codwch Raglen Ddysgu Oriel Wrecsam neu ffonio 01978 209093 i gael rhagor o wybodaeth.

Arddangosfa Agored Wrecsam 2010

Nos Llun 5 Gorffennaf a 2 Awst
5 – 7pm
Agored i Her
Dwy noswaith o weithdai blasu ar gyfer oedolion, yn cynnig cyfle i roi cynnig ar amrywiaeth o dechnegau / cyfryngau creadigol.

Beth Fyddech Chi'n ei Gynnig yn 2010?
Cystadleuaeth gelfyddyd i blant, ar y cyd â'r arddangosfa. Codwch ffurflen gais o'r Oriel am gyfle i ennill gwobr gelfyddydlyd.

Mae amrywiaeth o weithdai ar gael i bobl o bob oed, o'r blynyddoedd cynnar i fyfyrwyr prifysgol, a ysbrydolwyd gan yr arddangosfa. Codwch Raglen Ddysgu Oriel Wrecsam neu ffonio 01978 209093 i gael rhagor o wybodaeth.

Yr Hunan fel Gwrthrych, Charley

Gwyliau'r Haf

Yn ein hardal Galw Heibio bydd taflenni gweithgaredd a ysbrydolwyd gan ein harddangosfeydd haf. Anelwyd ein gweithgareddau at blant ac fe awgrymir rhodd o 50c.

Codwch Raglen Ddysgu Oriel Wrecsam neu ffonio 01978 209093 i gael rhagor o wybodaeth.

Gweithgareddau Wythnosol Rheolaidd

Dosbarthiadau Lluniadu'r Byw ar gyfer Oedolion
Nos Iau cyntaf pob mis 7– 9pm
Dewch i ymarfer eich sgiliau lluniadu! Graham Nelmes, tiwtor profiadol, sy'n arwain y sesiynau.
£4 yr un (£3 consiesiynau)

Arbrofi gyda Lliw ar gyfer Oedolion
Pob Dydd Mercher yn ystod y tymor 3– 5pm
Gweithdai paentio ar gyfer oedolion o bob oed a gallu, yn gweithio gydag amrywiaeth o gyfryngau. Caiff deunyddiau eu darparu ar gyfer y sesiwn 1af.
£5 y sesiwn (£4 consiesiynau)

Clwb Celf Dydd Sadwrn
Pob dydd Sadwrn yn ystod y tymor 10am – 12.30pm
I blant 8 – 12 oed.
£4 y plentyn (£3 consesiynau)

Sut i Gadw Lle mewn Gweithdai a Dosbarthiadau
Mae lleoedd yn brin yn yr holl sesiynau. Felly, archebwch yn gynnar rhag cael eich siomi! Galwch heibio neu ffoniwch i gadw lle. **01978 292093**

Oriel Wrecsam
Ffordd Rhosddu, Wrecsam, LL11 1AU
ffôn: 01978 292093
oriel.wrecsam@wrexham.gov.uk
www.wrexham.gov.uk/arts **Mynediad am ddim**

Amseroedd Agor:

Oriel Indigo	
Dydd Llun - Dydd Mercher & Dydd Gwener	9.30am-6.45pm
Dydd Iau	12.00am-6.45pm
Dydd Sadwrn	9.30am-4.00pm

Oriel Majenta	
Dydd Llun - Dydd Gwener	9.30am-6.45pm
Dydd Sadwrn	9.30am-4.00pm